**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**24 EBRILL 2018**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA ar ddydd Mawrth 24 Ebrill 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Brian Lloyd (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

**YMDDIHEURIADAU:**
Cynghorwyr: Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Bob Connah, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Richard Jones, Richard Lloyd, Vicky Perfect

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethiant), Prif Swyddog (Y Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol), Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid), Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Pwyllgor.

## 119. CYFLWYNIAD

Croesawodd y Cadeirydd Laura Deas, sef enillydd y Fedal Efydd yn Ras y Sled Sgerbwd i Ferched yng Ngemau Olympaidd Gaeaf PyeongChang 2018, i'r cyfarfod a gwahoddwyd y Prif Weithredwr i dalu teyrnged iddi.

Darparodd y Prif Weithredwr wybodaeth gefndir a llongyfarchodd Laura ar ei chyflawniad personol wrth ennill medal Efydd yn nigwyddiad y Sled Sgerbwd. Cyfeiriodd hefyd at gyflawniadau'r tîm Olympaidd wrth ennill cyfanswm o bum medal yng Ngemau Olympaidd Gaeaf PyeongChang 2018 a oedd yn cynnwys medal Aur ac Efydd yn y Sled Sgerbwd. Siaradodd am falchder yr Awdurdod yng 'ngwreiddiau' lleol Laura, ei man geni, lle cafodd ei magu a'i haddysgu. Siaradodd am yr hyfforddiant, y sgiliau a'r ddisgyblaeth angenrheidiol ar gyfer camp y Sled Sgerbwd a dywedodd y dylid hefyd ddathlu bod y tîm Olympaidd wedi bod ymhlith yr 20 uchaf yn y tabl medalau yng Ngemau Olympaidd Gaeaf PyeongChang 2018. Gwahoddodd Laura i annerch yr Aelodau.

Diolchodd Laura i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr am gydnabod ei llwyddiant yng Ngemau Olympaidd Gaeaf PyeongChang 2018 a siaradodd am ei

balchder yn ei chyflawniad fel y medalydd Gemau Olympaidd Gaeaf cyntaf yng Nghymru. Siaradodd am ei phrofiadau cynnar mewn digwyddiadau chwaraeon a chystadleuol a arweiniodd ati'n darganfod camp y Sled Sgerbwd. Siaradodd Laura am ei balchder yn cynrychioli Cymru a'i hardal leol, sef Sir y Fflint a diolchodd i'r Aelodau am y cyfle i siarad am ei phrofiadau mewn chwaraeon a'i dyheadau i'r dyfodol.

Talodd y Cynghorydd Ian Roberts deyrnged i Laura ar ei llwyddiant mewn cael medal efydd yng Ngemau Olympaidd Gaeaf PyeongChang 2018 ac yn ei chyflawniad fel yr athletwr Gemau Olympaidd Gaeaf cyntaf i ennill medal yng Nghymru. Soniodd am y ddisgyblaeth a'r dewrder oedd eu hangen i gystadlu yng nghamp y Sled Sgerbwd a dywedodd ei bod hi'n ysbrydoliaeth i bobl ifanc ac athletwyr uchelgeisiol yn Sir y Fflint. Dywedodd y Cynghorydd Roberts fod penderfyniad a gwaith caled Laura yn esiampl o'r hyn allai gael ei chyflawni a dymunodd bob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Dave Hughes, fel yr Aelod Lleol, Laura ar ran Cyngor Cymuned Llanfynydd a thrigolion Llanfynydd a siaradodd am y balchder lleol yn ei chyflawniadau. Dymunodd bob llwyddiant iddi yng nghystadlaethau'r dyfodol.

Yn ogystal, talodd y Cynghorydd Aaron Shotton deyrnged i gyflawniadau Laura a siaradodd am ei hymroddiad a'i brwdfrydedd a oedd yn ysbrydoliaeth i bobl ifanc yn Sir y Fflint. Gwahoddodd y Cynghorydd Shotton Laura i gyfrannu trwy unrhyw gyfle allai fod ganddi, i'r gwasanaethau a ddarparwyd ar gyfer hamdden, ieuenctid ac addysg yn y Sir i roi arweiniad a meithrin brwdfrydedd ac uchelgais i bobl ifanc yn Sir y Fflint.

Talodd y Cynghorwyr Mike Peers, Clive Carver, Derek Butler a Kevin Hughes deyrngedau pellach i Laura a mynegon nhw eu diolch a'u llongyfarchiadau iddi.

**120. <u>COFNODION</u>**

(i) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2018.

(ii) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2018.

<u>Cywirdeb</u>

Tudalen 30: Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at ei sylw y byddai talebau gofal plant yn cael eu disodli gan gynllun newydd a gefnogir gan lywodraeth y DU o ofal plant di-dreth o fis Ebrill 2018 ymlaen a dywedodd y cytunwyd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei hymgorffori yn Natganiad y Polisi Cyflog ond nid oedd hyn wedi'i gofnodi yn y penderfyniad ar gyfer yr eitem.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Yn amodol ar y diwygiad uchod, bydd y ddwy set o gofnodion yn cael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnodion cywir.

## 121. DATGAN CYSYLLTIAD

Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai cysylltiad personol yn cael ei gofnodi ar ran yr holl Aelodau sy'n bresennol ar gyfer eitem 12 – Adroddiad Blynyddol 2018 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

## 122. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Dosbarthwyd copi o Gyfathrebiadau'r Cadeirydd i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod.

Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar Strafagansa Cerddorol Cyngor Tref Bwcle a gynhaliwyd yn Eglwys y Plwyf Bistre, Bwcle, a drefnwyd er cof am y diweddar Gynghorydd Ron Hampson a'i fab Stephen. Dywedodd y bu'r digwyddiad yn llwyddiant ac yn deyrnged 'addas' i'r Cynghorydd Hampson a Stephen a diolchodd i'r Cynghorydd Dennis Hutchinson am ei waith caled yn trefnu'r digwyddiad.

Ymatebodd y Cynghorydd Hutchinson fod elw'r digwyddiad wedi'i roi i'r elusennau a gefnogwyd gan y diweddar Gynghorydd Hampson a Mrs. Rita Hampson. Diolchodd y Cynghorydd Hutchinson i'r trigolion lleol a gefnogodd y digwyddiad â'u holl galon.

## 123. DEISEBAU

Ni dderbyniwyd rhai.

## 124. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y Cwestiwn canlynol wedi'i gyflwyno gan y Cynghorydd John Holiday, Cyngor Cymuned Argoed, o fewn y dyddiad cau ac wedi'i ddangos ar yr agenda.

"Fel y byddwch yn ymwybodol heb os, er gwaetha'r protestiadau sylweddol, penderfynodd CSFf/Aura gau'r cyrtiau sboncen yn yr Wyddgrug. Mae Clwb Sboncen Brymbo'n codi cyrtiau newydd a chynigion nhw brynu, datgymalu a thynnu'r unedau cefn gwydr o'r Wyddgrug. Clywson nhw ddim rhagor. Mae'n amlwg bellach yn hytrach nag achub y caffaeliad gwerthfawr hwn, cawson nhw eu malu'n chwilfriw a'u gwaredu yn y sgip. O gofio iddynt gostio £6000 yr un, mae hwn yn wastraff gwarthus o £12,000 pan fo CSFf mewn angen dybryd am arian yn ôl pob sôn.

O ran diddordeb wrth wneud defnydd pellach o gefnau cyrtiau gwydr, pam gafodd yr adnodd gwerthfawr hwn ei falu a'i daflu mewn sgip?"

Fel yr Aelod Cabinet dros Addysg, darparodd y Cynghorydd Ian Roberts yr ymateb canlynol:

Yn y cyfarfod ymgynghori i gwsmeriaid yng Nghanolfan Hamdden yr Wyddgrug ar 23 Ionawr 2018 am y datblygiad cyfalaf arfaethedig, derbyniwyd cais ar lafar gan gynrychiolydd y chwaraewyr sboncen ynghylch a ellid rhoi'r

cefnau gwydr i glwb sboncen lleol, naill ai'n rhad ac am ddim neu am ffi fach. Cytunodd y Rheolwr yng Nghanolfan Hamdden yr Wyddgrug edrych i mewn i hyn ac o ganlyniad, gofynnwyd i'r contractwr, WFC, a oedd tynnu'r cefnau gwydr ymaith a'u bwrw i'r neilltu'n ymarferol. Cytunodd WFC i geisio diwallu'r cais cyn dymchwel.

Mae WFC wedi darparu adroddiad ar sut gwnaethon nhw ddelio â'r cais gan gynnwys diagram yn dangos y cyrtiau sboncen yn cael eu trwsio (gweler atodiad 1). Mae'r pwyntiau amlycaf fel a ganlyn:

- roedd gwaelod y gwydr wedi'i osod mewn sianel siâp 'U' a ymgorfforwyd yn y llawr concrit saernïol;
- fe'i diogelwyd gan gynnyrch mastig trwm i'w ddal yn ddiogel yn ei le;
- cafodd ochrau'r gwydr eu diogelu gyda mastig hefyd;
- llenwyd yr uniadau rhwng y rhannau gwydr gyda mastig hefyd;
- roedd y manylion yn gymesur ag adeiladu'r cefnau gwydr er mwyn iddynt fod yn addas i'r diben, yn ddiogel, yn fertigol ac yn wydn i gymryd y sbonciau mynych ac effeithiau sylweddol eraill a brofir mewn cwrt sboncen;
- gwnaeth y WFC eu gorau glas trwy dorri cymaint o fastig allan â phosibl gan ddefnyddio offer trafod gwydr priodol, er enghraifft sugnwyr, i ryddhau a chodi'r paneli gwydr; a
- fodd bynnag, o gofio natur y dull gosod gwreiddiol, nid oedd hyn yn bosibl heb ddifrodi'r gwydr. Canlyniad hyn oedd nad oedd dewis ond i dorri'r rhannau amrywiol i'w cael nhw allan.

Ffoniodd rheolwr Canolfan Hamdden yr Wyddgrug gynrychiolydd y clwb sboncen ar 1 Chwefror 2018 i roi gwybod iddo na fu'n bosibl tynnu'r cefnau gwydr yn llwyddiannus.

I gloi, cymerwyd pob cam i geisio diwallu'r cais hwn gan ei fod er lles pawb dan sylw, gan gynnwys y Cyngor, Hamdden a Llyfrgelloedd Aura a'r chwaraewyr a'r clwb sboncen lleol. Yn anffodus, nid oedd hyn yn bosibl a chyflëwyd hyn yn amserol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad sylweddol ar y datblygiadau hyn, gan gynnwys yn benodol gyda'r chwaraewyr sboncen. Gellir darparu ar gyfer y defnydd cymharol isel o sboncen yn yr Wyddgrug mewn safleoedd eraill sy'n gymharol agos, gan gynnwys Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy.

Mae'r gwaith yng Nghanolfan Hamdden yr Wyddgrug sydd bellach yn mynd rhagddo yn rhan o brosiect gwerth £1.4 miliwn, heb unrhyw gost i'r Cyngor, a fydd yn dyblu maint y cyfleuster ffitrwydd presennol ac yn creu stiwdio ymarfer corff grŵp wedi'i deilwra. Cwmni elusennol a berchnogir gan ei weithwyr ac a sefydlwyd gan y Cyngor a'r gweithwyr yw Hamdden a Llyfrgelloedd Aura. Gall Aura dalu'r costau cyfalaf yn ôl trwy gynnydd mewn incwm refeniw.

.

Gofynnodd y Cynghorydd Bernie Attridge am eglurhad ar y weithdrefn i godi cwestiynau cyhoeddus yng nghyfarfodydd y Cyngor Sir. Esboniodd y Swyddog Monitro fod uchafswm cyfnod o 30 munud yn cael ei ganiatáu yn ystod cyfarfod y Cyngor i godi ac ateb cwestiynau cyhoeddus.

Response to the public question

**125. CWESTIYNAU**

Ni dderbyniwyd rhai.

**126. RHYBUDD O GYNNIG**

Ni dderbyniwyd rhai.

**127. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR Y FFLINT - CYNLLUN LLES**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth o Gynllun Lles terfynol Sir y Fflint, cyn ei gyhoeddi. Cynghorodd fod yr adroddiad wedi darparu trosolwg o waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a datblygiad y Cynllun Lles (y Cynllun).

Darparodd y Prif Weithredwr wybodaeth gefndir ac adroddodd ar y prif ystyriaethau. Crybwyllodd fod Sir y Fflint yn enwog am ei record o weithio mewn partneriaeth a dywedodd fod y Cynllun wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â Chynllun y Cyngor a rhoddodd aliniad cryf, sy'n 'gweddu' i'r blaenoriaethau. Byddai'r Cynllun yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir fel gofyniad statudol.

Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad ar y cyd gyda'r Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu a ymdriniodd â'r pwyntiau allweddol canlynol. Gwahoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), y Prif Swyddog (y Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) i adrodd ar y pum blaenoriaeth ar gyfer y Cynllun Lles.

- aelodau statudol ac anstatudol (gwâdd)
- y Cynllun Lles
- sut datblygwyd y Cynllun
- y pum blaenoriaeth:
  - Diogelwch Cymunedol
  - Economi a Sgiliau
  - Yr Amgylchedd
  - Byw yn Iach ac yn Annibynnol
  - Cymunedau Gwydn
- y camau nesaf – datblygiad a chyhoeddiad y Cynllun Cyflawni

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cynllun Lles yn destun amrywiad ac argymhellwyd ei fod yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor fel cynllun statudol erbyn 4 Mai.

Wrth symud yr argymhelliad, diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i'r Prif Weithredwr a'r swyddogion am y gwaith a wnaed gyda chydweithwyr mewn sefydliadau partner. Dywedodd fod amcanion y Cynllun Lles yn ychwanegol at Gynllun pum mlynedd y Cyngor ac nad oedd hi'n bosibl i'r Awdurdod gyflawni'r holl welliannau roedd eu heisiau heb weithio mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y sector cyhoeddus. Rhoddodd ganmoliaeth i lefel y gwaith partneriaeth oedd

yn cael ei wneud i gyflawni cyd-amcanion a chanlyniadau cadarnhaol er budd trigolion Sir y Fflint. Diolchodd yn benodol i'r Cynghorydd Billy Mullin a'r Prif Weithredwr am eu gwaith ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint ac am ddarparu arweinyddiaeth i'r Bwrdd a'r partneriaid. Gofynnodd i'r Aelodau gefnogi'r Cynllun a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gyflawni'r canlyniadau.

Gofynnodd y Cynghorydd Mike Peers am fanylion aelodaeth y Cyngor Sir ar y Bwrdd. Cyfeiriodd at y flaenoriaeth ar Economi a Sgiliau a'r angen i ddatblygu sgiliau ar gyfer cyfleoedd gwaith. Dywedodd ei bod hi'n bwysig i fusnesau cymunedol gael y cyfle i gysylltu â'r Bwrdd i ddynodi'r sgiliau cyflogaeth yr oedd eu hangen yn eu busnesau. Cyfeiriodd at y wybodaeth am Ddiogelwch Cymunedol ar dudalen 58 yr adroddiad a chydnabyddodd y gwaith oedd yn mynd yn ei flaen. Awgrymodd fod y wybodaeth yn cael ei chynnwys hefyd ar blismona cymunedol ac wrth ymgysylltu â'r cyhoedd, a rhoddodd sylwadau ar y sicrwydd y oedd presenoldeb yr heddlu'n ei ddarparu o ran diogelwch a lles cyhoeddus. Awgrymodd y Cynghorydd Peers hefyd y dylai'r flaenoriaeth ar yr Amgylchedd fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynllun datblygu lleol er mwyn adlewyrchu uchelgeisiau ac amcanion y Cynllun Lles a Chynllun y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carol Ellis at gynnig y Cyngor i ymestyn gofal preswyl ar safle Marleyfield ym Mwcle, y dywedodd y byddai'n lleddfu'r pwysau ar wasanaethau damweiniau ac argyfwng mewn ysbytai lleol ac roedd yn enghraifft o'r ffordd y gweithiodd y Cyngor mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd.

Dywedodd y Cynghorydd Heesom y bu ganddo rai pryderon o gwmpas y cyswllt rhwng Cynllun y Cyngor a'r Cynllun Lles. Cyfeiriodd at y cyfeiriad ym mharagraff 1.10 yr adroddiad, i roi adborth gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar Asesiad drafft Sir y Fflint a gofynnodd a allai copi o'r adborth gael ei ddarparu i Aelodau. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai gweithdy i'r aelodau i gyd yn cael ei gynnal ar Gynllun y Cyngor ar 29 Mai, ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'w fabwysiadu gan y Cyngor yn ei ffurf derfynol yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Soniodd fod y swyddogion yn hyderus fod y cyswllt yn gryf ond dywedodd na ddylai cynllun partneriaeth ar y cyd gael ei or-reoli gan Gynllun y Cyngor. Cytunodd y Prif Weithredwr ddarparu copi o'r adborth i'r Cynghorydd Heesom ac Aelodau eraill ar gais.

Soniodd y Cynghorydd Paul Shotton ar y flaenoriaeth Diogelwch Cymunedol a'r angen i bartneriaid fod ynghlwm wrth gasglu deallusrwydd yn ymwneud â gangiau troseddol wedi'u trefnu yn Sir y Fflint. Cyfeiriodd hefyd at y flaenoriaeth Economi a Sgiliau a soniodd am y ffair swyddi ddiweddar yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy a dywedodd y bu dros 500 o swyddi ar gael a oedd yn dangos ystod amrywiol y cyfleoedd gwaith a hyfforddiant sydd ar gael yn Sir y Fflint. Cymerodd y Cynghorydd Shotton y cyfle hefyd i dalu teyrnged i waith tîm Cymunedau yn Gyntaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Aaron Shotton at y sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Peers ar bwysigrwydd sicrhau bod yr Awdurdod a'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus yn gytûn o ran dynodi'r sgiliau oedd yn ofynnol gan fusnesau lleol. Rhoddodd sicrwydd i'r Cynghorydd Peers y byddid yn mynd i'r afael â'i sylwadau ac y dylid cyflawni'r gwaith hwn trwy waith Bargen Twf Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD**:

Cymeradwyo'r Cynllun Lles.
Presentation slides

**128. PAPUR YMGYNGHORI LLYWODRAETH CYMRU, CRYFHAU LLYWODRAETH LEOL : CYFLAWNI DROS EIN POBL**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar ymateb i bapur gwyrdd Llywodraeth Cymru Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni Dros Ein Pobl. Darparodd wybodaeth gefndir a chyd-destun a rhoddodd gyflwyniad a ymdriniodd â'r prif bwyntiau canlynol:

- Diwygio Llywodraeth Leol – Cyn hanes
- Diwygio Llywodraeth Leol – ymlaen neu i ffwrdd?
- Papur Gwyrdd 1 diweddaraf
- Papur Gwyrdd 2 diweddaraf
- Pam fod obsesiwn yng Nghymru?
- Y materion mawr go iawn?
- Ein safle 1 a 2 cyson
- risgiau diwygio strwythurol 1 a 2
- creu ymateb adeiladol

Dywedodd y Prif Weithredwr mai'r dyddiad cau ar gyfer ymgynghori ar y papur gwyrdd oedd 12 Mehefin 2018 ac iddo osod y cwestiynau ymgynghori wedi'u saernïo er mwyn gwneud ymateb. Esboniodd fod arweiniad yn cael ei geisio gan Aelodau ar ymateb y gallai'r Cyngor ei wneud ar eu rhan.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Aaron Shotton at y cynnydd a gyflawnwyd ar Fargen Twf Gogledd Cymru a'r perthnasoedd cadarnhaol oedd yn cael eu datblygu gyda'r Llywodraeth a Llywodraeth Cymru ar Fargen Twf. Cyfeiriodd hefyd at yr ymgyrch 'Cefnogwch y Cais' ac ymdriniaeth yn y wasg leol a chenedlaethol i greu diddordeb a hyder mewn busnesau yng Ngogledd Cymru ac yn yr hyn oedd yn cael ei gyflawni yn yr ardal. Soniodd y Cynghorydd Shotton hefyd ar sefyllfa unedig Gogledd Cymru ar hyn o bryd a dywedodd fod potensial am gydweithrediad rhanbarthol pellach ac y dylid rhoi cyfle llawn i nodau Mark Drakeford AC, cyn Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Llywodraeth Leol yn 2017 o blaid gweithio rhanbarthol gwell.

Rhoddodd y Cynghorydd Aaron Shotton sylwadau ar yr angen am ddadansoddiad grymus o'r gost ac o fanteision diwygio llywodraeth leol fel man cychwyn i benderfynu a ddylid ymgymryd â'r cynigion. Cynigiodd ddirprwyo'r angen i ddarparu ymateb ar ymgynghoriad i'r papur gwyrdd i arweinwyr grŵp i ffurfio ymateb cytûn. Croesawodd y cyfle i gryfhau pwerau ond dywedodd fod diffyg manylder yn yr adroddiad mewn perthynas â'r ffordd y gellir rhoi hyn ar waith. Cyfeiriodd at yr angen i gefnogi ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), yn enwedig mewn ymateb i opsiwn 3, a dywedodd nad oedd 'archwaeth yng Nghymru am opsiwn 3". Pwysleisiodd bwysigrwydd cynnal y berthynas dda yr oedd yr Awdurdod wedi'i datblygu gydag awdurdodau lleol eraill a chyfeiriodd at bwysigrwydd twf economaidd ac uchelgais y Bwrdd Twf.

Cefnogodd y Cynghorydd Peers y safbwyntiau a fynegwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton a soniodd am yr angen i ystyried effaith y cynnig ar

gyfer diwygio strwythurol llywodraeth leol ar gymunedau lleol. Soniodd am y gwaith oedd yn mynd rhagddo ar Fargen Twf Gogledd Cymru y dywedodd y gallai unrhyw ad-drefnu ei danseilio.

Siaradodd y Cynghorwyr Tony Sharps, Hilary McGuill, Arnold Woolley a Carol Ellis yn erbyn y cynigion a holwyd ynghylch y manteision i'w hennill o uniadau gwirfoddol neu raglen uno cyfarwyddeb sengl. Codwyd costau ariannol y diwygiadau arfaethedig, y manteision i'w hennill gan yr Awdurdod, yr effaith ar drigolion Sir y Fflint ac ar berfformiad a pharhad y gwasanaeth yn y dyfodol.

Siaradodd y Cynghorydd Patrick Heesom i gefnogi Bargen Twf Gogledd Cymru y dywedodd ei fod yn ysbrydoledig ac roedd yn dechrau cael effaith ar Sir y Fflint.

Cefnogodd y Cynghorydd Derek Butler y safbwyntiau a fynegwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton. Dywedodd mai'r consensws barn oedd yn cael ei fynegi gan Aelodau oedd bod y cynigion yn rhy gynnar. Pwysleisiodd y gwaith partneriaeth oedd yn cael ei wneud gan yr Awdurdod yn y sector cyhoeddus ac ar y Fargen Twf a Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy.

Soniodd y Cynghorydd Neville Phillips ar y cynigion blaenorol ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol a dywedodd y byddai diwygio'n digwydd yn ei farn ef. Esboniodd y Prif Weithredwr fod yr amgylchiadau y tro hwn yn wahanol i gynigion ad-drefnu blaenorol ac nad oedd modd dadlau'r cynigion.

**PENDERFYNWYD:**

Anfon ymateb i'r ymgynghoriad, yn seiliedig ar yr adroddiad, y cyflwyniad a'r drafodaeth a'i gopïo i'r Arweinwyr Grŵp er gwybodaeth.

presentation slides

**129. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2018**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i alluogi'r Cyngor i gael Adroddiad Blynyddol 2018/19 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae hwn yn cadarnhau'r taliadau i aelodau etholedig a chyfetholedig ar gyfer y flwyddyn nesaf. Adroddodd fod cynigion drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2018/19 wedi'u hystyried gan y Cyngor ar 24 Hydref. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 27 Chwefror 2018 ac mae'n gosod y lefelau taliad i Aelodau ar gyfer 2018/19. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd wybod o 1 Ebrill 2018 ymlaen y byddai'r holl Aelodau etholedig yn cael y cyflog sylfaenol o £13,600 oedd yn gynnydd o 1.49% ar gyflog sylfaenol 2017/18.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod y rhan fwyaf o lefelau taliad wedi'u penderfynu gan y Panel ond rhaid i Sir y Fflint, fel awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, benderfynu ar ba lefel y dymunai wneud cais amdano ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor. Cyfeiriodd at y tair lefel gyflog bosibl a osodwyd yn y Panel ac esboniodd ers cyflwyno'r disgresiwn, roedd Sir y Fflint wedi talu Lefel 2 bob tro i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai cyfrifoldeb Lefel 2 yn cael ei dalu ar £21,800 i'r Cadeirydd ac £16,300 i'r Is-gadeirydd (sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol).

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge y sefyllfa fel y mae, sef bod Cadeirydd y Cyngor yn parhau i gael ei dalu ar Lefel 2 a bod yr Is-gadeirydd yn parhau i gael ei dalu ar Lefel 2. Cafodd hwn ei gario o'i roi i bleidlais.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r penderfyniadau a wnaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyflogau Aelodau ar gyfer 2018/19;

(b) Talu Lefel 2 i Gadeirydd y Cyngor (£21,800 sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol); a

(c) Dylai Is-gadeirydd y Cyngor gael ei dalu ar Lefel 2 (£16,300 yn cynnwys y cyflog sylfaenol).

## 130. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg ac 16 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.16 pm)

..................................................

**Cadeirydd**